

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Hysbysiad Preifatrwydd GWASANAETHAU'R CYNGOR

Ysgrifennwyd yr hysbysiad hwn yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards - Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop - Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
Data.Protection@merthyr.gov.uk
01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Dyddiad Creu: 25 Mai 2018
Yr Adran Gyfrifol: Tîm Llywodraethu Gwybodaeth
Y Rheolwr Cyfrifol: Ellis Cooper
Cyfeiriad: CBSMT, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gyfrifol am benderfynu ynghylch y ffordd yr ydym yn dal ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol inni dynnu'ch sylw at y wybodaeth sydd yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol i'r holl rai sydd am gyrchu gwasanaethau'r Cyngor megis cleientiaid, cwsmeriaid, contractwyr, preswylwyr y fwrdeistref, ac unrhyw unigolion eraill. Nid yw'r hysbysiad hwn yn rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Mae'n bosib y byddwn yn diweddarau'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg. Os gwnawn hynny, byddwn yn sicrhau bod copi cyfoes ohono ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen ac yn cadw'r hysbysiad hwn, ynghyd ag unrhyw hysbysiad preifatrwydd arall y byddwn yn ei ddarparu ar adegau penodol wrth inni gasglu neu brosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Trwy hynny, byddwch yn ymwybodol o sut a pham yr ydym yn defnyddio gwybodaeth o'r fath, ac yn ymwybodol hefyd o'ch hawliau o dan y ddeddfwriaeth diogelu data.

ENW A MANYLION CYSWLLT Y RHEOLWR DATA

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r Rheolwr Data ac mae'n ymrwymedig i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data gan gynnwys y GDPR.

Manylion Cyswllt y Swyddog Diogelu Data

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â hi trwy ddefnyddio'r manylion canlynol:

Mrs Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad:	Tîm Llywodraethu Gwybodaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Canolfan Ddinesig Stryd y Castell Merthyr Tudful CF47 8AN	E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk Tel: 01685 725000 Ffacs: 01685 725060
------------	--	--

Y MATH O WYBODAETH YR YDYM YN EI DAL AMDANOCH CHI

Mae data personol, neu wybodaeth personol, yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gallai gael ei defnyddio i adnabod unigolyn. Mae yna categorïau arbennig o ddata personol mwy sensitif sy'n gofyn am lefel uwch o ddiogelwch.

Byddwn yn casglu, yn storio ac yn defnyddio'r categorïau canlynol o wybodaeth personol amdanoch chi ymhob un o'n hadrannau mewnol er mwyn cyflwyno ein gwasanaethau i chi:

- Disgrifwyr Personol gan gynnwys:
 - o Manylion cyswllt personol fel enw, teitl, cyfeiriadau, rhifau ffôn, a chyfeiriadau e-bost personol.
 - o Dyddiad geni.
 - o Rhyw.
 - o Statws priodasol a dibynyddion.
 - o Perthynas agosaf a gwybodaeth ar sut i gysylltu mewn argyfwng.
 - o Ffilmiau TCC a gwybodaeth arall a geir trwy ddulliau electronig.
 - o Ffotograffau.
- Rhifau Adnabod:
 - o Rhif Yswiriant Gwladol.
 - o Rhif Cyflogres.
 - o Rhifau Adnabod.
 - o Rhif Trwydded Yrru.
 - o Cardiau Adnabod Iechyd.
 - o Rhif Cais Cynllunio.
- Manylion Ariannol:
 - o Manylion cyfrif banc, cofnodion cyflogres gan gynnwys eich rhif cyflogres a statws treth.
 - o Hanes cyflog.
 - o Statws ariannol.
 - o Hanes iawndal.
- Cofnodion Credyd:
 - o Manylion am fenthyciadau.
 - o Teilyngdod credyd.
 - o Hanes credyd.
 - o Pryniadau.
 - o Arferion gwario.
- Cofnodion Cyflogaeth:
 - o Gwybodaeth am gyflog, gwyliau blynyddol, pensiwn a budd-daliadau.
 - o Dyddiad dechrau neu ddyddiad cyflogaeth barhaus, dyddiad gadael, eich rheswm dros adael.
 - o Lleoliad cyflogaeth neu weithle.
 - o Gwybodaeth am recriwtio.
 - o Teitlau swyddi, hanes gwaith, oriau gwaith, gwyliau, cofnodion hyfforddi ac aelodaeth broffesiynol.
 - o Gwybodaeth am berfformiad.
 - o Gwybodaeth am ddisgyblu ac achwyno.
 - o Cofnodion cerdyn fflecsi.
 - o Gwybodaeth am eich defnydd o'n systemau gwybodaeth a chyfathrebu.
 - o Canlyniadau gwiriad y CThEM i statws cyflogaeth.

- Addysg:
 - o Hanes Addysg.
 - o Canlyniadau Arholiadau.
 - o Graddau Disgwyliedig.
 - o Data asesiad a chyrrhaeddiad, megis canlyniadau cyfnod allweddol 1 a ffoneg, cyrsiau ôl-16 yr ymrestrwyd ar eu cyfer ac unrhyw ganlyniadau perthnasol.
 - o Cofnodion presenoldeb ysgol megis sesiynau a fynychwyd, nifer yr absenoldebau, rhesymau absenoldeb ac unrhyw ysgolion blaenorol a fynychwyd.
 - o Gwybodaeth ymddygiadol megis data ar eithrio a gwahardd.

Byddwn ni hefyd yn casglu, yn storio ac yn defnyddio'r wybodaeth bersonol ganlynol sy'n perthyn i gategoriâu arbennig:

- Gwybodaeth am eich hil neu'ch ethnigrwydd, credoau crefyddol, tueddfryd rhywiol a safbwyntiau gwleidyddol.
- Aelodaeth o undeb llafur.
- Gwybodaeth am euogfarnau troseddol a throseddau.
- Hanes iechyd y teulu neu'r unigolyn, cofnodion iechyd, math o waed, meddyginiaethau a phresgripsiynau cyfredol a blaenorol.
- Gwybodaeth am eich iechyd, gan gynnwys unrhyw gyflwr meddygol o natur gorfforol neu feddyliol, a chofnodion iechyd a chyflogaeth, gan gynnwys:
 - o manylion am adael cyflogaeth ac unrhyw "gynllun rhannu" a weithredir gan un o gwmnïau'r grŵp, a bod y rheswm am adael yn ymwneud ag afiechyd, anaf neu anabledd, a'r cofnodion sy'n ymwneud â'r penderfyniad hwnnw;
 - o manylion am unrhyw absenoldebau (heblaw gwyliau) o'r gwaith gan gynnwys absenoldeb rhieniwl statudol ac absenoldeb salwch;
 - o manylion am adael cyflogaeth a'r rheswm dros adael yn gysylltiedig â'ch iechyd, gwybodaeth am y cyflwr hwnnw sydd ei hangen er dibenion pensiynau ac yswiriant iechyd parhaol.
- Gwybodaeth enetig a data biometrig.

Y MODD Y MAE'CH GWYBODAETH BERSONOL YN CAEL EI CHASGLU

Rydym yn casglu gwybodaeth bersonol amdanoch chi trwy ffurflenni sydd ar gael ar-lein ac o fewn swyddfeydd y Cyngor, trwy alwadau ffôn â chi, a thrwy ohebiaeth. Gallwn weithiau gasglu gwybodaeth ychwanegol oddi wrth drydydd parti gan gynnwys cwmnïau preifat, cymdeithasau tai, asiantaethau gofal plant, asiantaethau maethu a mabwysiadu, elusennau, y gwasanaeth iechyd gwladol, awdurdodau lleol eraill, adrannau'r llywodraeth, yr heddlu, y gwasanaeth tân, meddygon teulu, practisiau meddygol, ac eraill. Byddwn yn mewnbynnu'ch gwybodaeth bersonol i systemau'r Cyngor lle caiff ei chadw gan weinyddion yr Adran TGCh a'i lletya yn y Cwmwl.

Byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol ychwanegol wrth i'r Cyngor weithredu'i ddyletswyddau a darparu'i wasanaethau i chi trwy gydol eich cyswllt â ni.

Mae manylion penodol ynglŷn â sut y mae ein hadrannau'n prosesu gwybodaeth bersonol i'w gweld yn eu hysbysiadau preifatrwydd. Gallwch ddod o hyd iddynt ar ein gwefan neu'n uniongyrchol o'r adran berthnasol neu Dîm Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor.

Y MODD Y BYDDWN YN DEFNYDDIO GWYBODAETH AMDANOCH CHI

Byddwn ni ond yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol pan fydd y gyfraith yn galluogi inni wneud hynny. Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol o dan yr amgylchiadau canlynol:

1. Pan fyddwn ni wedi cael eich caniatâd i ddarparu gwasanaeth ar eich cyfer.
2. Pan fo angen i ni gyflawni ein contract â chi.
3. Pan fo angen i ni gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol.
4. Pan fo angen inni ddiogelu'ch buddiannau chi (neu fuddiannau rhywun arall).
5. Pan fo'i hangen er budd y cyhoedd neu at ddibenion swyddogol o fewn ein tasg gyhoeddus.
6. Pan fo'n angenrheidiol i'n buddiannau cyfreithlon ni (neu rai trydydd parti) a phan nad yw'ch buddiannau a'ch hawliau sylfaenol chi yn drech na'r buddiannau hynny.

Y sefyllfaoedd lle byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol chi

Mae arnom angen yr holl gategoriâu gwybodaeth a restrir uchod; yn bennaf, er mwyn caniatáu i ni gyflawni ein swyddogaethau statudol fel awdurdod lleol. Bydd hyn yn caniatáu inni: ddarparu gwasanaethau yn unol â'n contract â chi; galluogi ni i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol megis gweinyddu treth y cyngor; cyflawni ein tasgau cyhoeddus megis darparu addysg; a diogelu'ch buddiannau hanfodol mewn sefyllfaoedd argyfyngus. Mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i fynd ar ôl ein buddiannau cyfreithlon ni ein hunain neu rai trydydd partiön, gyhyd nad yw'ch buddiannau a'ch hawliau sylfaenol chi yn drech na'r buddiannau hynny.

Mae holl adrannau'r Cyngor yn prosesu gwybodaeth bersonol er mwyn cyflawni swyddogaethau ein gwasanaeth a'n busnes ni. Mae'r Cyngor yn cynnwys yr adrannau canlynol sy'n casglu, defnyddio a rhannu'ch gwybodaeth bersonol yn fewnol ac yn allanol gyda'n darparwyr cymeradwy.

Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr yn cynnwys:

Yr Adran Gyfreithiol

Gwasanaethau Democrataidd, Gwasanaethau Craffu a Gwasanaethau Etholiadol

Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol

Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Gwasanaethau sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Dirprwy Brif Weithredwr:

Tîm Newid Busnes gan gynnwys Cydraddoldeb, Rheoli Risg a'r Gymraeg, Datblygu Cynaliadwy, Partneriaethau a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Y Tîm Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu

Y Tîm TG gan gynnwys Print

Cynllunio at Argyfwng

Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cynnwys:

Gwasanaeth a Chefnogaeth Weithredol

Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid

Refeniw

Budd-daliadau

Archwiliad Mewnol

Gwasanaethau Parcio

TCC a "Lifeline"

Gwasanaethau Cyllid sy'n cynnwys:
Cyfrifyddiaeth ac Yswiriant
Caffael a Thaliadau
Cyllid Corfforaethol

Adfywio Cymunedol gan gynnwys:
Adfywio Ffisegol
Datblygiad Economaidd
Twristiaeth
Cyflogaeth/Cyflogadwyedd
Cyllid Ewropeaidd ac Allanol

Gwarchod y Cyhoedd gan gynnwys:
Safonau Masnach a Thrwyddedu
Iechyd yr Amgylchedd
Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Cymhorthdal Teithio
Gwasanaethau Cofrestru
Gwasanaethau Tai
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
Diogelwch Cymunedol

Gwasanaethau Cymdogaeth sy'n cynnwys:
Priffyrdd a Pheirianeg
Glanhau a Gorfodaeth Amgylcheddol
Parciau a Gwasanaethau Profedigaeth
Eiddo ac Ystadau Corfforaethol
Rheoli Gwastraff
Rheoli Fflyd
Cynllunio a Chefn Gwlad, Rheoli Adeiladu, Rheoli Datblygu, Cynllunio, Polisi a Gweithredu

Y Gyfarwyddiaeth Ddysgu sy'n cynnwys:
Gwella Ysgolion
Anghenion Dysgu Ychwanegol
Cynhwysiant a Llesiant
Gwasanaethau Llywodraethwyr
Cynllunio Ysgolion a Gwasanaethau Gwella

Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cynnwys:
Llesiant y Gymuned
Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant
Diogelu

Os na fyddwch yn darparu gwybodaeth bersonol

Oni fyddwch yn darparu gwybodaeth benodol pan gewch gais i wneud hynny, efallai na fyddwn yn gallu cyflawni'r contract yr ydym wedi ymrwymo iddo gyda chi, neu efallai na fyddwn yn gallu cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol.

Newid diben

Dim ond at y dibenion y gwnaethom gasglu'ch gwybodaeth bersonol ar eu cyfer y byddwn yn ei defnyddio, onid ydym yn rhesymol gredu bod angen i ni ei defnyddio am reswm arall a bod y rheswm hwnnw'n gydnaws â'r diben gwreiddiol. Os bydd angen i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddiben nad yw'n gysylltiedig â'r diben gwreiddiol, byddwn yn rhoi gwybod i chi. Byddwn hefyd yn esbonio'r sail gyfreithiol sy'n ein galluogi ni i wneud hynny.

Sylwch y gallwn brosesu'ch gwybodaeth bersonol heb yn wybod i chi neu heb eich caniatâd, gan gydymffurfio â'r rheolau uchod, os yw hynny'n ofynnol dan y gyfraith neu'n cael ei ganiatáu dan y gyfraith.

Y MODD YR YDYM YN DEFNYDDIO GWYBODAETH BERSONOL SENSITIF IAWN

Mae categorïau arbennig o ddata personol sensitif iawn yn gofyn am lefelau uwch o ddiogelwch. Mae angen rhagor o gyfiawnhad arnom ar gyfer casglu, storio a defnyddio'r math yma o wybodaeth bersonol. Mae gennym ddogfen bolisi a mesurau diogelu priodol y mae'n ofynnol i ni eu cynnal yn ôl y gyfraith wrth brosesu data o'r fath. Efallai y byddwn yn prosesu categorïau arbennig o wybodaeth bersonol yn yr amgylchiadau canlynol:

1. Mewn amgylchiadau prin, gyda'ch caniatâd ysgrifenedig penodol chi.
2. Pan fydd angen i ni gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol neu weithredu ein swyddogaethau cyhoeddus yn unol â gwahanol ddeddfau seneddol, canllawiau statudol, codau ymddygiad, a chyfarwyddyd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi.
3. Pan fydd ei hangen er budd y cyhoedd, fel ar gyfer monitro cyfle cyfartal.

At hynny, efallai y byddwn yn prosesu'r math yma o wybodaeth lle bydd ei hangen mewn perthynas â hawliadau cyfreithiol neu lle bydd ei hangen i ddiogelu'ch buddiannau chi (neu fuddiannau rhywun arall) a chithau ddim yn gallu rhoi eich caniatâd, neu lle rydych eisoes wedi gwneud y wybodaeth yn gyhoeddus.

RHANNU DATA

Efallai y bydd yn rhaid i ni rannu'ch data â thrydydd partïon, gan gynnwys darparwyr gwasanaeth trydydd parti. Rydym yn gofyn i drydydd partïon barchu diogelwch eich data a'i drin yn unol â'r gyfraith.

Pam y byddech yn rhannu fy ngwybodaeth bersonol â thrydydd partïon?

Byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol â thrydydd partïon pan fo hynny'n ofynnol dan y gyfraith, pan fo hynny'n ofynnol i weinyddu'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ar eich cyfer, neu pan fo gennym fudd cyfreithlon arall dros wneud hynny.

Pa ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti sy'n prosesu fy ngwybodaeth bersonol?

Mae trydydd partïon yn cynnwys darparwyr gwasanaeth trydydd parti (gan gynnwys contractwyr ac asiantau dynodedig). Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â nifer o ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti i'n cynorthwyo i gyflawni ein swyddogaethau cyhoeddus. Mae'n ofynnol i bob un o'n darparwyr gwasanaeth trydydd parti a rheolwyr data eraill gymryd mesurau diogelwch priodol i amddiffyn eich gwybodaeth bersonol yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Bydd ein cyflenwyr trydydd parti a rheolwyr data yn rhoi gwybodaeth i chi ar sut maen nhw'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol. Nid ydym yn caniatáu i'n darparwyr gwasanaeth trydydd parti ddefnyddio eich data personol at eu dibenion eu hunain. Rydym ond yn caniatáu iddynt brosesu'ch data personol at ddibenion penodol ac yn unol â'n cyfarwyddiadau ni.

Pam y byddech yn rhannu fy ngwybodaeth bersonol â rheolwyr data eraill?

Byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol â rheolwyr data eraill wrth adrodd yn rheolaidd ynghylch ymrwymiad y gwasanaeth i'w ddefnyddwyr, ac wrth geisio cefnogaeth ychwanegol i ddarparu'n gweithgareddau craidd fel Awdurdod Lleol, ac i gynnal a chadw ein systemau a "lletya" data.

Efallai y byddwn yn rhannu data personol anhysbys ar sail flynyddol â Llywodraeth Cymru ynglŷn â'ch cyfranogiad yng ngwasanaethau'r Cyngor, er dibenion ymchwilio a dadansoddi ystadegol fel y gellir gwella'r gofal a'r gefnogaeth a ddarperir i bobl Cymru.

Efallai y byddwn hefyd yn rhannu data personol â Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn iddynt gyflawni'u swyddogaethau statudol i gefnogi rôl yr Archwilydd Cyffredinol fel gwarchodwr y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Pa mor ddiogel yw fy ngwybodaeth gyda darparwyr gwasanaeth trydydd parti a rheolwyr data eraill? Beth am drydydd parti eraill?

Efallai y bydd angen i ni rannu'ch gwybodaeth bersonol â rheoleiddiwr neu fel arall i gydymffurfio â'r gyfraith. Gall hyn gynnwys Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yr Heddlu, yr Ombwdsmon, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth neu Adran arall o'r Llywodraeth, a Chomisiynwyr Rheoleiddio penodedig.

Trosglwyddo gwybodaeth y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd

Ni fyddwn yn trosglwyddo'ch data i unrhyw wlad y tu allan i'r UE. Os gwnawn ni, byddwn yn rhoi gwybod ichi cyn gynted â phosibl. At hynny, gallwch ddisgwyl graddau cyffelyb o ddiogelwch ar gyfer eich gwybodaeth bersonol.

CADW DATA

Am ba hyd y byddwch yn cadw fy ngwybodaeth?

Dim ond am gyn hired ag sy'n ofynnol i gyflawni dibenion casglu'r wybodaeth y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd.

Am fanylion ynghylch cyfnodau cadw'r gwahanol agweddau ar eich gwybodaeth bersonol, ewch at y Polisi Rheoli Cofnodion ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk) neu cysylltwch â'n Tîm Llywodraethu Gwybodaeth - mae eu manylion i'w gweld ar frig yr hysbysiad hwn. I benderfynu ar y cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried maint, natur a sensitifrwydd y data personol, y perygl posibl o niwed yn sgil defnyddio neu ddatgelu'ch gwybodaeth bersonol heb awdurdod, dibenion prosesu'ch data personol ac a allwn gyflawni'r dibenion hynny trwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddwn yn gwneud eich gwybodaeth bersonol yn ddiennw fel na fydd modd cysylltu'r wybodaeth â chi bellach. Yn yr achos hwnnw, gallwn ddefnyddio'r cyfryw wybodaeth heb roi rhagor o rybudd i chi. Pan na fyddwch mwyach yn derbyn gwasanaethau oddi wrth y Cyngor, byddwn yn cadw ac yn dinistrio'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn unol â'n Polisi Rheoli Cofnodion gan gynnwys unrhyw ddeddfau a rheoliadau perthnasol.

HAWLIAU CYRCHU, CYWIRO, DILEU A CHYFYNGU

Eich dyletswydd i roi gwybod i ni am newidiadau

Mae'n bwysig fod y wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch chi yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda, os bydd eich gwybodaeth bersonol yn newid yn ystod eich perthynas weithio â ni.

Eich hawliau mewn perthynas â gwybodaeth bersonol

Yn ôl y gyfraith, mae gennych hawl i'r canlynol o dan rai amgylchiadau:

- **Gwneud cais i drosglwyddo'ch** gwybodaeth bersonol i barti arall.
- **Gwneud cais am fynediad** i'ch gwybodaeth bersonol (a elwir fel arfer yn "gais gwrthrych am wybodaeth"). Mae hyn yn eich galluogi i gael copi o'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch ac i wneud yn siŵr ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon.
- **Gwneud cais i gywiro'r** wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i gywiro unrhyw wybodaeth anghywir neu anghyflawn yr ydym yn ei dal amdanoch.
- **Gwneud cais i ddileu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu symud eich gwybodaeth bersonol pan nad oes gennym reswm da dros barhau i'w phrosesu. Mae gennych hefyd hawl i ofyn inni ddileu neu symud eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch wedi arfer eich hawl i wrthwynebu prosesu (gweler isod).
- **Gwrthwynebu prosesu'ch** gwybodaeth bersonol lle rydym ni yn dibynnu ar fuddiant cyfreithlon (neu fuddiant trydydd parti) a bod rhywbeth am eich sefyllfa benodol yn peri ichi wrthwynebu'r prosesu ar y sail hon. Hefyd, mae gennych hawl i wrthwynebu lle rydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata uniongyrchol.
- **Gwneud cais i gyfyngu** ar brosesu'ch gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi chi i ofyn i ni atal dros dro y gwaith o brosesu gwybodaeth bersonol amdanoch, er enghraifft os ydych am i ni ganfod a yw'n gywir neu'r rheswm am ei phrosesu.

Os byddwch chi eisiau adolygu, dilysu, cywiro neu wneud cais i ddileu eich gwybodaeth bersonol, neu wrthwynebu prosesu'ch data personol, neu wneud cais i ni drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i barti arall, cysylltwch yn ysgrifenedig â'r rheolwr cyfrifol a nodwyd ar frig yr hysbysiad hwn.

Does dim angen talu ffi fel arfer

Ni fydd yn rhaid i chi dalu ffi i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol (neu i arfer unrhyw rai o'r hawliau eraill). Ond, efallai y byddwn yn codi ffi resymol os yw'n amlwg fod eich cais am fynediad yn ddi-sail neu'n ormodol. Neu efallai, yn y cyfryw amgylchiadau, y byddwn yn gwrthod cydsynio â'r cais.

Yr hyn allen ni fod ei angen gennych chi

Efallai y bydd angen i ni ofyn am wybodaeth benodol gennych i'n helpu i gadarnhau pwy ydych chi ac i sicrhau eich hawl i gael mynediad i'r wybodaeth (neu i arfer unrhyw rai o'ch hawliau eraill). Dyma fesur diogelu priodol arall i sicrhau nad yw'ch gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i unrhyw berson nad oes ganddo hawl i'w derbyn.

YR HAWL I DYNNU CANIATÂD YN ÔL

Mewn amgylchiadau prin a chithau efallai wedi rhoi eich caniatâd i'ch gwybodaeth bersonol gael ei chasglu, ei phrosesu neu ei throsglwyddo at ddiben penodol, mae gennych yr hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl ar gyfer y diben penodol hwnnw ar unrhyw adeg. I dynnu'ch caniatâd yn ôl, cysylltwch â'r swyddog cyfrifol a nodwyd ar frig yr hysbysiad hwn. Unwaith y byddwn wedi cael gwybod eich bod wedi tynnu'ch caniatâd yn ôl, ni fyddwn wedyn yn prosesu'ch gwybodaeth at y diben neu ddibenion y cytunoch chi iddynt yn wreiddiol, oni bai fod gennym sail ddilys arall dros wneud hynny dan y gyfraith.

DIOGELWCH DATA

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn atal eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli'n ddamweiniol, rhag cael ei defnyddio neu'i chyrchu mewn ffordd heb ei hawdurdodi, a rhag cael ei newid neu'i datgelu. Hefyd, rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogeion, asiantau, contractwyr a thrydydd partïon eraill sydd angen gwybodaeth mewn perthynas â'u busnes. Dim ond yn unol â'n cyfarwyddiadau ni y byddant yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol ac mae ganddynt ddyletswydd cyfrinachedd.

Rydym wedi sefydlu gweithdrefnau i ddelio ag unrhyw achos posibl o dorri mesurau diogelu data a byddwn yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol am hyn pan fo raid i ni wneud hynny o dan y gyfraith.

GWNEUD CWYN

Rydym wedi penodi Swyddog Diogelu Data (DPO) i oruchwylio'r dasg o gydymffurfio â'r hysbysiad preifatrwydd dan sylw. Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn neu'r modd yr ydym yn trin eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodwyd ar y brig. Mae gennych yr hawl i gwyno ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef awdurdod goruchwylio'r DU ar gyfer materion diogelu data:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru)

Yr Ail Lawr

Tŷ Churchill

Ffordd Churchill

Caerdydd

CF10 2HH

Ffôn: 029 2067 8400

Ffacs: 029 2067 8399

E-bost: casework@ico.org.uk

NEWIDIADAU I'R POLISI PREIFATRWYDD HWN

Rydym yn cadw'r hawl i ddiweddarau'r hysbysiad preifatrwydd hwn ar unrhyw adeg, a byddwn yn darparu hysbysiad preifatrwydd newydd i chi pan fyddwn yn ei ddiweddarau'n sylweddol. Efallai hefyd y byddwn o bryd i'w gilydd yn rhoi gwybod i chi mewn ffyrdd eraill am y modd y caiff eich gwybodaeth bersonol ei phrosesu.